



Cynllun strategol  
2020-25



# **Cyngor Fferyllol Cyffredinol**

## **Cynllun strategol 2020-25**

Cynllun strategol i'w gyflwyno i'r Senedd a Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd partner rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni ar [communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org) os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).



# Rhagair

Mae ein gweledigaeth ddeng mlynedd yn un o ofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach. Bydd llawer o bobl a sefydliadau yn helpu i sicrhau bod hynny'n digwydd – Ni fydd ein gwaith rheoleiddio yn gwneud hyn ar ei ben ei hun. Ond rydyn ni'n credu ei bod yn iawn i ni osod gweledigaeth uchelgeisiol a fydd yn ffocysu ein hymdrechion ar y gwahaniaeth rydyn ni eisiau ei wneud. Yng Nghynllun strategol 2020-25 rydym yn crynhoi'r gwaith y bwriadwn ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf er mwyn chwarae ein rhan.

Gan edrych i'r dyfodol, gallwn weld rhai datblygiadau arwyddocaol a fydd yn cael effaith fawr ar fferylliaeth a reoleiddio fferyllol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- effeithiau byr dymor a thymor hirach y pandemig coronafeirws (COVID-19) ar ofal iechyd a chymdeithasol, ac ar y gymdeithas ehangach
- technoleg yn cael effeithiau pellach ar feddyginiaethau ac ar y ffordd y cânt eu cyflenwi
- cleifion a'r cyhoedd yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran gofal 'â phobl yn ganolog iddo', ac
- Iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd yn fwy integredig byth

Rydym wedi gwybod ers tro y bydd yn rhaid i'n gwasanaethau iechyd a gofal addasu, oherwydd pwysau o bob math ar adnoddau, newidiadau yn y boblogaeth a heriau iechyd cyhoeddus. Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn her o faint cwbl ddigynsail i iechyd y choedd, ac o ganlyniad mae pawb ym maes gofal iechyd a chymdeithasol wedi gorfod gweithio mewn ffordd wahanol, gan ein cynnwys ni.

Mae holl lywodraethau Prydain Fawr wedi ei gwneud yn glir bod fferylliaeth yn rhan allweddol o'r ateb i'n heriau iechyd a chymdeithasol, gan gynnwys y pandemig presennol. Mae cyfle mawr i fferylliaeth ddatblygu ac ymgymryd â rôl helaethach wrth helpu pobl i gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles yn y dyfodol.

Yn bennaf, llywodraethau, comisiynwyr iechyd a gwasanaethau gofal a'r sector ei hun sydd i benderfynu sut y dylai'r sector fferyllol newid. Ond mae'n amlwg bod y ffordd y caiff gwasanaethau fferylliaeth eu darparu yn newid yn sylweddol. Mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn fwyfwy tebygol o weithio mewn timau amlddisgyblaethol, gan ddarparu gofal sydd â ffocws clinigol cryfach, gyda phatrymau gwaith a gyrfaedd mwy hyblyg. Fel rheoleiddiwr, rydym yn gwybod y bydd gennym ninnau ran bwysig i'w chwarae hefyd-gan weithio gyda llywodraethau, cleifion, gweithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr ac eraill. Rydym hefyd yn sylweddoli bod hyn yn golygu cydweithio'n agos iawn â rheoleiddwyr eraill – rheoleiddwyr y proffesiynau iechyd a gofal a rheoleiddwyr systemau. Nid oes modd rhoi gofal a gwasanaethau'n dwt mewn blychau penodol ar wahân. Felly mae angen i ni weithio gyda'n cydweithwyr i sicrhau bod y system yn ei chyfanrwydd yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r cyhoedd o ran diogelwch ac ansawdd.

Ac rydym yn deall bod y cyhoedd yn disgwyl i reoleiddwyr fod wedi symud ymhell y tu hwnt i ddim ond ymateb i broblemau a gosod rheolau. Mae disgwyl i ni weld risgiau a materion cyn iddynt ddod yn broblem, a gweithio'n ddiwyd i fynd i'r afael â nhw.

Yn y tudalennau canlynol rydym yn nodi'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn y blynyddoedd hyd at 2025, wrth i ni weithio i:

- gyflwyno fframwaith safonau y gellir ei addasu, ac sy'n diwallu anghenion sy'n newid yn gyflym gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
- sicrhau rheoleiddio effeithiol, cyson a theg
- ysgogi gwelliannau mewn gofal fferyllol drwy foderneiddio'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant
- symud y cydbwysedd tuag at ddulliau rheoleiddio fferylliaeth sy'n fwy rhagweledol a chymesur ac sydd wedi'u teilwra
- gwella ein galluoedd a'n seilwaith i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth

Bydd angen i ni gadw golwg fanwl ar ein gweledigaeth a'n cynllun strategol dros y flwyddyn nesaf, ac wedi hynny, a'u diwygio yn ôl yr angen. Bydd angen hefyd osod blaenoriaethau newydd yn unol â hyn, i sicrhau ein bod:

- yn addasu'n gyflym i'r heriau a ddisgrifiwyd, gan gynnwys rhai'n ymwneud â COVID-19, ac
- yn helpu i annog arloesedd cyfrifol wedi ei seilio ar greu gwell deilliannau, yn ddiogel, i gleifion.



**Nigel Clarke**  
Cadeirydd



**Duncan Rudkin**  
Prif Weithredwr

# Yr hyn a wnawn

Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod pobl yn cael gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol, a bod ganddynt ffydd mewn fferylliaeth.

Rydym yn:

- hybu proffesiynoldeb o fewn fferylliaeth
- helpu i sicrhau bod gan weithwyr fferyllol proffesiynol y wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiad priodol
- sicrhau ansawdd fferylliaeth, gan gynnwys ei diogelwch
- helpu i wella gwasanaethau fferylliaeth

Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cofrestru a rhestru'n gyhoeddus y gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r fferyllfeydd sy'n darparu gofal i gleifion a'r cyhoedd
- gosod a hyrwyddo'r safonau sydd eu hangen i ymuno â'n cofrestr a pharhau arni
- derbyn sicrwydd, mewn nifer o ffyrdd, bod gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd yn parhau i gyrraedd ein safonau-ac yn gweithredu'n briodol pan nad ydynt
- rhannu gydag eraill yr hyn a ddysgwn drwy ein gwaith
- ymchwilio i bryderon am y bobl neu'r fferyllfeydd yr ydym yn eu cofrestru a rhoi camau gweithredu cymesur ar waith i ddiogelu'r cyhoedd a hybu ein safonau



# Ein cynllun strategol

Mae ein cynllun strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn nodi dechrau ein taith tuag at gyflawni ein Gweledigaeth 2030 uchelgeisiol, ar gyfer 'gofal fferyllol diogel ac effeithiol sydd wrth wraidd cymunedau iachach'.

**Er mwyn gwneud cynnydd mawr wrth gyflawni ein gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r pum nod strategol a nodir isod. Sef:**

1. Cyflwyno fframwaith safonau y gellir ei addasu, ac sy'n diwallu anghenion sy'n newid yn gyflym gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.
2. Sicrhau rheoleiddio effeithiol, cyson a theg.
3. Ysgogi gwelliannau mewn gofal fferyllol drwy foderneiddio'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant.
4. Symud y cydbwysedd tuag at ddulliau rheoleiddio fferyllol sy'n fwy rhagweledol a chymesur ac sydd wedi'u teilwra.
5. Gwella ein galluedd a'n seilwaith i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth.

Ategir pob nod gan naratif byr at ddibenion esboniadol, y rhaglenni gwaith allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt, ynghyd â rhai enghreifftiau lefel uchel o lwyddiant.

## Ein nodau strategol

1. **Cyflwyno fframwaith safonau y gellir ei addasu, ac sy'n diwallu anghenion sy'n newid yn gyflym gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol**

Bydd meddu ar fframwaith safonau cyfoes a pherthnasol a chanllawiau ategol – ar gyfer gweithwyr proffesiynol a fferyllfeydd – yn ein galluogi i reoleiddio mewn modd hyblyg, cymesur ac effeithiol. Bydd y safonau a'r canllawiau yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau clinigol, gan weithio mewn amrywiaeth o leoliadau a gyda modelau darparu gwasanaethau amrywiol. Bydd y modelau gwasanaeth hyn yn ymgorffori mwy a mwy o ddefnydd o dechnoleg uwch.

**I gyflawni'r nod hwn dros y pum mlynedd nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:**

1. Ddatblygu safonau rheoleiddio newydd ar gyfer rolau sydd wedi'u diweddarau gan ddeddfwriaeth meddyginiaethau.
2. Sicrhau bod ein safonau craidd a'n canllawiau ategol yn diwallu anghenion y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, anghenion sy'n cyson newid.
3. Cael y gwerth mwyaf o'n dull 'systemau cyfan' o reoleiddio fferylliaeth.

### Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo os:

- bydd ein fframwaith safonau rheoleiddio yn adlewyrchu'r prif faterion sydd eu hangen ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol
- bydd safonau a ddisgwylir yn cael eu deall gan y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd
- bydd cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol yn glir ac y ceir tystiolaeth ohonynt drwy adborth a thrwy arolygiadau, a'r pryderon a godir

## 2. Sicrhau rheoleiddio effeithiol, cyson a theg

Fel rheolydd o ansawdd, bydd ein holl wasanaethau yn perfformio'n cyson dda. Byddwn yn deall pa wahaniaeth y mae ein dulliau rheoleiddio a'n gweithgareddau yn ei wneud i ddiogelwch cleifion a'r gwelliant parhaus yn ansawdd ymarfer fferyllol ym mhob lleoliad. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y ffordd rydym yn rheoleiddio wedi'i seilio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a dealltwriaeth dda o'r systemau a'r diwylliannau y mae gweithwyr proffesiynol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn bodoli ynddynt.

**I gyflawni'r nod hwn dros y pum mlynedd nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:**

1. Gyrraedd holl safonau rheoleiddio da.
2. Adrodd yn eang ar ein perfformiad o ran rheoleiddio a darparu gwasanaeth.
3. Deall effaith ein gwaith.
4. Rheoleiddio'n deg.

### Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo os:

- byddwn yn cyson gyrraedd y 18 safon rheoleiddio da a osodwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
- byddwn yn adrodd ar gynhyrchedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau
- byddwn yn deall effaith ein dulliau rheoleiddio ac yn defnyddio hyn i wella ansawdd ymarfer fferyllol
- byddwn yn gallu mesur diogelwch ac effeithiolrwydd gofal fferyllol
- gall pobl o bob cefndir ffynnu yn y proffesiwn ac os bydd mynediad teg at wasanaethau fferyllol i bob cymuned

## 3. Ysgogi gwelliannau mewn gofal fferyllol drwy foderneiddio'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant

Ein nod yw sicrhau bod pob agwedd ar y ffordd rydym yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant gweithwyr fferyllol proffesiynol, a'u dysgu a'u datblygiad parhaus, yn gyfredol ac yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Drwy hyn, byddwn yn gallu cefnogi'r ymdrech i lunio gweithlu proffesiynol hyderus a galluog a all ddiwallu anghenion cleifion nawr ac yn y dyfodol.

**I gyflawni'r nod hwn dros y pum mlynedd nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:**

1. Adnewyddu safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.
2. Datblygu ein dull o reoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-gofrestru gweithwyr fferyllol proffesiynol.
3. Gweithredu dull wedi'i deilwra a'i arwain gan wybodaeth i achredu a sicrhau ansawdd darparwyr hyfforddiant ac addysg cychwynnol.
4. Diweddarau cynnwys ac amseru'r asesiad cofrestru ar gyfer fferyllwyr.
5. Galluogi gweithwyr fferyllol o wledydd tramor i gael eu cofrestru'n effeithlon.

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo os:**

- bydd cyflogwyr yn dweud wrthym fod gan weithwyr fferyllol sydd newydd gymhwyso y sgiliau sydd eu hangen
- bydd darparwyr addysg yn cyrraedd ein safonau diwygiedig
- bydd ein hasesiad cofrestru yn profi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar fferylllydd o'r 'diwrnod cyntaf un'
- bydd asesiad teg a chymesur ar gyfer pob gwladolyn tramor

#### **4. Symud y cydbwysedd tuag at ddulliau rheoleiddio fferyllol sy'n fwy rhagweledol a chymesur ac sydd wedi'u teilwra**

Byddwn yn canolbwyntio mwy a mwy o'n hymdrechion rheoleiddiol ar achub y blaen ar faterion cyn iddynt ddigwydd neu ddod yn fwy o broblem. Byddwn yn defnyddio data, gwybodaeth a mewnwediadau i'n helpu ni i wneud hynny. Byddwn hefyd yn eu defnyddio i lywio ein penderfyniadau er mwyn i ni deilwra ein hymatebion rheoliadol fwyfwy, i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. O ganlyniad, bydd ein hymatebion yn fwy seiliedig ar y cyd-destun a'r materion rydym yn delio â nhw, yn hytrach na'r ffordd rydym wedi ein strwythuro. Bydd y dull hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu a gweithio gydag eraill a chyfathrebu'n fwy uniongyrchol â'r cyhoedd yn ogystal â fferylliaeth.

**I gyflawni'r nod hwn dros y pum mlynedd nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:**

1. Ymarfer dull rheoleiddio sydd wedi ei lywio mwyfwy gan wybodaeth.
2. Rheoli, mewn ffordd strategol, y llif gwybodaeth a phryderon sy'n ein cyrraedd.
3. Gweithredu dull mwy person-ganolog ac adferol o ymdrin ag addasrwydd i ymarfer.
4. Datblygu agwedd fwy strategol tuag at reoleiddio fferylliaeth.
5. Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r safonau y dylent eu disgwyl gan fferylliaeth.

### Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo os:

- byddwn yn nodi materion sy'n berthnasol yn gyffredinol i bob agwedd ar fferylliaeth ac yn gweithredu arnynt
- byddwn yn sicrhau bod setiau data rheoleiddiol allweddol ar gael i'r sector fferylliaeth 24/7 drwy borthol data hunanwasanaeth, ac y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio
- caiff ein hymatebion rheoleiddiol eu teilwra a'u cydlynu mwyfwy yn seiliedig ar y materion a'r cyd-destun sy'n berthnasol
- bydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ddiogel i ymarfer ac y gallant gael cymorth i'w helpu i gyrraedd ein safonau pan fydd ei angen arnynt
- byddwn yn barod i gyflwyno dull strategol o reoleiddio ansawdd fferyllfeydd cofrestredig

### 5. Gwella ein galluedd a'n seilwaith i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth

I gyflawni ein gweledigaeth yn llwyddiannus a rheoleiddio'n effeithlon, mae'n bwysig bod gennym y sylfeini cywir yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys cael y bobl iawn, a'r diwylliant a'r dulliau gweithio iawn. I sicrhau llwyddiant, byddwn yn cael ein cefnogi gan y dechnoleg briodol a byddwn mewn sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy.

### I gyflawni'r nod hwn dros y pum mlynedd nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:

1. Wella profiad cwsmeriaid wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.
2. Sicrhau ein bod yn trefnu mewn ffordd sy'n hybu llwyddiant.
3. Gwella ein seilwaith TG i'n cynorthwyo i wireddu ein gweledigaeth.
4. Sefydlu sefyllfa ariannol gynaliadwy a theg.

### Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo os:

- bydd pob un o'n gwasanaethau ar gyfer cofrestryddion ar gael ar-lein, ac y byddwn yn cyrraedd y safonau gwasanaeth cwsmeriaid yn gyson
- bydd y sefydliad yn cael ei arwain yn effeithiol, ac y byddwn wedi gwella strwythurau, systemau a phrosesau i ganiatáu i ni newid gyda'r oes a sicrhau gwerth am arian
- bydd gennym y gallu, y sgiliau a'r wybodaeth i weithio mewn partneriaeth a chydweithio â'r proffesiwn fferyllol a rhanddeiliaid eraill i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion
- byddwn mewn sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy, wedi'i hariannu'n briodol ac yn deg gan y rhai a reoleiddiwn

O gofio mor gyflym y mae pethau'n newid, ac effaith sylweddol y pandemig COVID-19, byddwn yn adolygu'r cynllun a'n hamcanion yn rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn addasu'n gyflym i unrhyw newidiadau a allai godi o ran blaenoriaethau.

# Ein dull gweithredu strategol

Mae'r nodau strategol rydym wedi'u gosod ar ein cyfer ni'n hunain a lefel yr uchelgais rydym wedi ymrwymo iddi yn golygu y bydd angen i ni allu addasu'n gyflym i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym o'n cwmpas. Bydd angen i ni ddefnyddio gwybodaeth mwy a bod yn rhagweledol o ran ein dull rheoleiddio, er mwyn sicrhau ein bod yn gymesur ac yn effeithiol.

Wrth wneud hynny, mae'n bwysig ein bod yn cadw ein hegwyddorion gweithredu allweddol wrth galon y ffordd yr ydym yn gweithio. Sef:

## Hybu proffesiynoldeb

Credwn mai'r wybodaeth, agweddau ac ymddygiad proffesiynol sydd gan y bobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth sy'n rhoi'r sicrwydd gorau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Ein rôl fwyaf effeithiol yw helpu i hyrwyddo amgylchedd lle gall proffesiynoldeb ffynnu, a sicrhau bod y safonau a ddisgwylir gan fferyllfeydd yn adlewyrchu hyn.

## Canolbwyntio ar yr unigolyn

Wrth wraidd popeth a wnawn mae'r gydnabyddiaeth bod pawb yn unigolyn a bod gan bob unigolyn anghenion gwahanol y mae'n rhaid i ni eu deall a'u hystyried yn ein gwaith. Mae hyn yn berthnasol i bawb – gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, pobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth, pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal ehangach a phobl yn ein sefydliad ein hunain.

## Canolbwyntio ar ddeilliannau

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y deilliannau rydym am eu cyflawni ar ran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Bydd hyn yn golygu y gallwn roi hyblygrwydd i bobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth i allu arloesi ac addasu mewn ffordd sy'n gwella ansawdd.

## Hybu dysgu a gwella

Byddwn yn gweithio i wella ansawdd fferylliaeth yn barhaus. Byddwn yn casglu gwybodaeth o'n gwaith, a gwaith pobl eraill, er mwyn i ni allu rhannu'r hyn a ddysgir a hybu gwelliant. A byddwn yn sicrhau ein bod hefyd yn ein gwella ein hunain ac yn gweithio yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

## Cydweithio

Un rhan ydyn ni o system ehangach sy'n sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol gan fferylliaeth ac sy'n sicrhau bod ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth yn cael ei chynnal. Os ydym am fod yn llwyddiannus, rhaid inni weithio law yn llaw â'r bobl sy'n defnyddio fferylliaeth, arweinwyr fferylliaeth, rheoleiddwyr eraill, a'r sector iechyd a gofal ehangach.

## Cydnabod cyfraniad y tîm fferyllol cyfan

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fydd sgiliau, gwybodaeth a chyfraniad pawb yn y tîm fferyllol yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n cydnabod rôl y tîm fferyllol cyfan o ran ansawdd a gwelliant.

Y strategaeth hon yw ein hymrwymiad i weithio gyda'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, pobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth, ac eraill, i wella iechyd, diogelwch a lles pobl ym Mhrydain Fawr.







---

**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**  
**25 Canada Square, London E14 5LQ**  
**T 020 3713 8000**  
**E [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)**

** [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)**  
** [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)**  
** [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)**  
**[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)**